

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Bil yr Economi Ddigidol

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, a chyflwyno Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os yw un o Filiau Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu os yw'n gwneud darpariaeth sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cafodd Bil yr Economi Ddigidol (y "Bil") ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin ar 5 Gorffennaf 2016. Mae'r Bil i'w weld yma:
<http://services.parliament.uk/bills/2016-17/digitaleconomy.html>

Amcan y Polisi

3. Mae Llywodraeth y DU wedi datgan mai ei hamcan polisi yn hyn o beth yw sicrhau bod y DU ar flaen y gad o ran darpariaeth ddigidol – ei bod yn fan lle mae'r economi, ein cymdeithas a llywodraeth yn cael eu gweddnewid yn barhaus gan dechnoleg.

Crynodeb o'r Bil

4. Noddir y Bil gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon.
5. Mae'r Bil yn cynnwys mesurau ar ddarparu gwasanaeth band eang cyffredinol ar gyfer y Deyrnas Unedig; pwerau ychwanegol ar gyfer Ofcom mewn perthynas â darparu gwybodaeth, newid cyflenwyr ac iawndal awtomatig mewn perthynas â materion yn ymwneud â chyfathrebu; Cod newydd ar Gyfathrebu Electronig a materion eraill yn ymwneud â seilwaith cyfathrebu; mesurau i gyflwyno gwell reolaeth ar bornograffi ar-lein ac i amddiffyn dinasyddion rhag galwadau niwsans; mesurau sy'n ymwneud ag eiddo deallusol digidol; pwerau i rannu data rhwng awdurdodau cyhoeddus a rhai mesurau sy'n ymwneud â'r BBC.
6. Mae'r Bil yn gwneud darpariaeth ar gyfer:
 - rhoi'r hawl gyfreithiol i bob aelwyd ofyn am gysylltiad band eang cyflym;
 - rhoi gwell gwybodaeth i ddefnyddwyr ac i fusnesau am wasanaethau cyfathrebu, ei gwneud yn haws iddynt newid cyflenwyr, a chael iawndal os oes rhywbeth yn mynd o'i le;
 - torri'r costau sy'n gysylltiedig â seilwaith newydd a symleiddio rheolau cynllunio;

- gorfodaeth gryfach o gyfreithiau marchnata uniongyrchol, a chosbau sifil ar gyfer pornograffwyr ar-lein nad ydynt yn cadarnhau oedran eu cwsmeriaid;
- dileu rhwystrau cyfreithiol i lywodraeth ddigidol gan fynd ati ar yr un pryd i atgyfnerthu cyfreithiau diogelu data.

Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

7. Mae 7 rhan i'r Bil. Ceisir cydsyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer darpariaethau penodol yn y Bil ar rannu data gan awdurdodau cyhoeddus, sydd i'w gweld yn Rhan 5: Llywodraeth Ddigidol ac a gynhwyswyd yn y Bil pan gafodd ei gyflwyno, ac a gyflwynwyd drwy gyfrwng gwelliannau yn ystod y Cam Pwyllgor a'r Cyfnod Adrodd.
8. Gofynnwyd am eglurhad ar nifer o'r materion yn y darpariaethau hyn fel y'u cyflwynwyd. Cafodd gwelliannau i'r Bil eu cyflwyno'n ddiweddarach gan Matt Hancock AS, y Gweinidog Gwladol dros Ddigidol a Diwylliant, yn ystod y Cam Pwyllgor, ac maent i'w gweld yn yr Hysbysiad ynghylch Gwelliannau dyddiedig 18 Hydref 2016. Cyflwynwyd gwelliannau pellach ar gyfer y Cyfnod Adrodd gan Karen Bradley AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, ac maent i'w gweld yn yr Hysbysiad ynghylch Gwelliannau dyddiedig 21 Tachwedd 2016.
9. Mae'r fersiwn ddiweddaraf o'r Bil [Bil 87 2016-17 fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor] ar gael drwy'r ddolen uchod at ddogfennau'r Bil. Er mwyn hwyluso'r cyfeirio ac er cysondeb, mae pob cyfeiriad at rifau cymalau yn cyfeirio at y fersiwn honno o'r Bil, pa un a'u cynhwyswyd pan gafodd y Bil ei gyflwyno neu drwy welliannau.
10. Rhan 5, Pennod 1: Mae darparu gwasanaethau cyhoeddus (cymalau 29 i 37) yn gwneud darpariaeth i awdurdodau cyhoeddus penodedig, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, rannu data er mwyn gwella'r modd y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cymalau'n darparu porth caniatool ar gyfer rhannu data er mwyn galluogi awdurdodau cyhoeddus a bennir mewn rheoliadau i rannu gwybodaeth bersonol am resymau y cyfyngir yn llym arnynt ac a fydd yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau hefyd. Er mwyn defnyddio'r porth, bydd rhaid i'r diben y bwriedir rhannu gwybodaeth ar ei gyfer gydymffurfio ag amcanion a fydd yn cael eu nodi mewn rheoliadau. Er mwyn i amcan gael ei bennu mewn rheoliadau, rhaid iddo fodloni dau amod. Yr amod cyntaf yw y dylai'r wybodaeth gael ei rhannu er mwyn gwella neu dargedu gwasanaeth cyhoeddus a ddarperir ar gyfer unigolion neu aelwydydd, neu er mwyn hwyluso'r broses o ddarparu budd (pa un a fydd yn ariannol ai peidio) i unigolion neu aelwydydd. Yr ail amod yw mai diben yr amcan yw gwella llesiant unigolion neu aelwydydd. Mae'r Bil yn rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru bennu i ba gyrff yng Nghymru y bydd y darpariaethau ar rannu data mewn perthynas â gwella gwasanaethau cyhoeddus yn gymwys. Yn yr un modd, bydd Gweinidogion Cymru yn cael eu galluogi i bennu mewn rheoliadau yr amcanion y caiff awdurdodau cyhoeddus penodedig yng Nghymru ddatgelu gwybodaeth ar eu cyfer pan fo'r

amcanion hynny o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Mae Gweinidogion y DU yn cadw'r pŵer i bennu amcanion ar gyfer y DU gyfan, ond mae dyletswydd ar Weinidogion y DU i ymgynghori â Gweinidogion Cymru am faterion sy'n effeithio ar Gymru. Rhaid i unrhyw reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru o dan bennod 1 gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol.

11. Mae Cymal 30 o'r Bil yn darparu ar gyfer rhannu data er mwyn targedu cynlluniau cymorth tlodi tanwydd ac mae'n rhoi awdurdod i ddatgelu gwybodaeth i gyflenwyr nwy a thrydan er mwyn iddynt fedru cynnig cymorth i bobl o dan gynlluniau cymorth tlodi tanwydd sydd wedi cael sêl bendith y llywodraeth. Mae gwelliant i gymal 30 yn caniatáu i wybodaeth gael ei datgelu hefyd i gyflenwyr nwy a thrydan mewn cysylltiad â chynlluniau grant a wneir gan Weinidogion Cymru o dan adran 15 o Ddeddf Nawdd Cymdeithasol 1990 er mwyn helpu pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd drwy wella effeithlonrwydd ynni.
12. Rhan 5, Pennod 3: Mae dyledion sy'n ddyledus i'r sector cyhoeddus (cymalau 40 i 47) yn gwneud darpariaeth i awdurdodau cyhoeddus penodedig, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, rannu data er mwyn helpu unigolion i fynd ati mewn ffordd fwy effeithiol i reoli'r dyledion sydd arnynt i'r sector cyhoeddus. Bydd y darpariaethau perthnasol yn galluogi awdurdodau cyhoeddus penodedig i rannu gwybodaeth er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd a chael rhagor o wybodaeth am amgylchiadau cwsmeriaid unigol, ac am eu gallu i dalu. Mae'r Bil yn rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru bennu i ba gyrff yng Nghymru y bydd y darpariaethau ar ddyledion sy'n ddyledus i'r sector cyhoeddus yn gymwys. Rhaid i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol.
13. Rhan 5, Pennod 4: Mae twyll yn erbyn y sector cyhoeddus (cymalau 48 i 55) yn gwneud darpariaeth i awdurdodau cyhoeddus penodedig, gan gynnwys awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, rannu data er mwyn mynd i'r afael â thwyll yn erbyn sefydliadau yn y sector cyhoeddus. Bydd y darpariaethau perthnasol yn galluogi awdurdodau cyhoeddus penodedig i rannu gwybodaeth er mwyn canfod ac atal colledion i'r sector cyhoeddus o ganlyniad i dwyll. Mae'r Bil yn rhoi pwerau gweithredol i Weinidogion Cymru bennu i ba gyrff yng Nghymru y bydd y darpariaethau sy'n ymwneud â thwyll yn erbyn y sector cyhoeddus yn gymwys. Rhaid i reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru gael eu cymeradwyo drwy benderfyniad gan y Cynulliad Cenedlaethol.
14. Mae nifer o drefniadau diogelu yn y Bil i sicrhau bod cynlluniau i reoli dyledion yn well ac i atal twyll yn gweithio mewn ffordd ddiogel. Yn unol â chodau ymarfer a gaiff eu cyhoeddi o dan y Bil, bydd yn rhaid i unrhyw drefniadau newydd ar gyfer rhannu gwybodaeth gael eu treialu'n gyntaf a'u hasesu'n ofalus. Mae cymalau 45 a 53 o'r Bil yn darparu y bydd adolygiad yn cael ei gynnal gan y Gweinidog perthnasol ar lefel y DU ar ôl cyfnod o dair blynedd i weld sut y bydd penodau 3 a 4, sy'n ymwneud â rhannu data at ddibenion dyledion ac atal twyll, wedi gweithio. Rhaid i'r Gweinidog

hwnnw ymgynghori â Gweinidogion Cymru, ymhlith eraill, wrth gynnal yr adolygiad hwnnw. Ar ôl i'r adolygiad gael ei gwblhau, rhaid i'r Gweinidog gyhoeddi adroddiad am ganlyniad yr adolygiad hwnnw, a rhaid gosod copi o'r adroddiad gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r Bil yn cynnwys y pŵer i'r Gweinidog ddiwygio neu ddiddymu'r darpariaethau ym mhenodau 3 a 4 gan ddibynnu ar ganlyniad yr adolygiad. Er mwyn cydnabod y ffaith y gallai Llywodraeth Cymru fod yn defnyddio'r pwerau hyn at ddibenion datganoledig yn unig, cyflwynwyd gwelliannau i gymalau 45, 47, 53 a 55 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Gweinidog ar lefel y DU gael cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw reoliadau sy'n diwygio neu'n diddymu penodau 3 a 4, neu sy'n diwygio'r penodau hynny mewn ffordd sy'n effeithio ar sut y mae data'n cael eu rhannu rhwng cyrff cyhoeddus yng Nghymru.

15. Rhan 5, Pennod 5: Mae rhannu at ddibenion ymchwil (cymalau 56 i 63) yn gwneud darpariaeth ar gyfer defnyddio data y dilëwyd manylion personol ohonynt (sydd wedi'u dadpersonoli) ac sydd ym meddiant awdurdodau cyhoeddus y mae'r darpariaethau ym mhennod 5 yn gymwys iddynt, er mwyn helpu ymchwilwyr achrededig i gael gweld a chysylltu data mewn cyfleusterau diogel er mwyn gwneud gwaith ymchwil er budd y cyhoedd. Rhaid i'r Bwrdd Ystadegau (h.y. Awdurdod Ystadegau'r DU) achredu'r rheini sy'n gobeithio defnyddio'r pwerau yn y Bil i gynnal ymchwil, gan gynnwys yr awdurdodau cyhoeddus hynny sy'n darparu'r data, unrhyw sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r broses o ddileu manylion personol, a'r ymchwilwyr unigol. Diben yr achredu hwn yw sicrhau bod y rheini sy'n trafod y data yn gwneud hynny at ddiben priodol a bod ganddynt y trefniadau diogelu angenrheidiol i ddiogelu data.
16. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer y darpariaethau hyn oherwydd eu bod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â phynciau addysg, hyfforddiant galwedigaethol, cymdeithasol a chorfforol a'r gwasanaethau gyrfaoedd (pennawd pwnc 5); gwarchodaeth amgylcheddol, gan gynnwys llygredd, niwsans a sylweddau peryglus, gwasanaethau tân ac achub (pennawd pwnc 7); hybu iechyd; atal, trin a lleddfu afiechyd, salwch, anaf, anabledd ac anhwylder meddyliol a darparu gwasanaethau iechyd, gan gynnwys gwasanaethau a chyfleusterau meddygol, deintyddol, offthalmig, fferyllol ac ategol (pennawd pwnc 9); tai a hybu'r defnydd o effeithlonrwydd ynni ac arbed ynni yn y cartref, heblaw drwy wahardd neu reoleiddio (pennawd pwnc 1); pwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol a'u haelodau a'u swyddogion ac ariannu llywodraeth leol (pennawd pwnc 12); mynediad at wybodaeth a gedwir gan awdurdodau cyhoeddus mynediad agored (pennawd pwnc 14); lles cymdeithasol gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol; amddiffyn a llesiant plant (gan gynnwys mabwysiadu a maethu) ac oedolion ifanc; gofal plant, oedolion ifanc, personau hygryw a phersonau hŷn, gan gynnwys safonau gofal (pennawd pwnc 15); a threthi datganoledig (pennawd pwnc 16A) yn Rhan 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil yr Economi Ddigidol

17. Mae'r Bil hwn yn ymdrin â materion datganoledig ac â materion sydd heb eu datganoli a bydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau sy'n ymwneud â rhannu data yn gymwys i Loegr, Gogledd Iwerddon, yr Alban a Chymru. Bydd y deddfwriaeth arfaethedig yn caniatáu i awdurdodau cyhoeddus penodedig rannu data at ddibenion penodedig (gan gynnwys rhannu data ar draws ffiniau). Bydd gwneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru drwy gyfrwng y Bil hwn yn hwyluso'r gwaith o rannu data rhwng sefydliadau ar draws y DU. Bydd hynny'n cynnwys rhannu data rhwng asiantaethau datganoledig ac asiantaethau sydd heb eu datganoli, a bydd hynny o fudd i Gymru. Mae angen gweithredu ar lefel y DU gyfan ym maes ymchwil ac ystadegau er mwyn sicrhau cysondeb. O ran gweithio mewn ffordd gydlynol yn hyn o beth, bernir mai deddfu drwy gyfrwng Bil ar gyfer y DU gyfan yw'r ffordd orau o symud y mater hwn yn ei flaen, oherwydd y byddai sicrhau cysondeb o ran deddfwriaeth yn golygu y byddai llai o risg y byddai sefydliadau'n creu rhwystrau diangen.

Goblygiadau ariannol

18. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol i Gymru. Gall rhannu data rhwng sefydliadau yn y gwasanaethau cyhoeddus arwain at arbedion effeithlonrwydd.

Casgliadau

19. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai dyna'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i ddarparu dull o weithredu ledled y DU a fydd yn sicrhau cysondeb o ran rhannu data. Dim ond drwy Fil ar gyfer y DU y gellir gwneud hynny.

Mark Drakeford AC

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Tachwedd 2016**